Swydd: Ymarferydd Datblygu Dawns (nodwch – mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd ond rydym yn croesawu ceisiadau gan ddysgwyr Cymraeg sydd wedi ymrwymo i ddatblygu eu sgiliau Iaith Gymraeg)

Manylion Swydd:

Teitl:	**Ymarferydd Datblygu Dawns**
Oriau:	**Rhan Amser – 18 awr yr wythnos (yn cynnwys gweithio gyda'r nos ac ar Sadyrnau)**
Cyfnod:	**Cytundeb Blwyddyn**
Cyflog:	**£26,000 pro rata (£13,000)**
Ardal:	**Gwynedd, Conwy ac Ynys Mon gyda prif swyddfa yn Galeri, Caernarfon**
Dyddiad Dechrau:	**Cyn gynted â phosibl**
Dyddiad Cau am Ymgeisio:	**22.04.22**
Hysbysiad Rhestr Fer:	**25.04.22**
Cyfweliadau a Clyweliadau:	**4 a 5 Mai**

Y Cwmni:

Mae Dawns i Bawb yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Ffurfiwyd y Cwmni yn 1988 ac fe'i lleolir yn Galeri, Caernarfon. Mae Dawns i Bawb yn gleient portffolio Cyngor y Celfyddydau Cymru a hefyd yn derbyn grantiau gan Gynghorau Sir Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn.

Fel y sefydliad dawns yn y gymuned i Ogledd-orllewin Cymru, mae Dawns i Bawb yn datblygu darpariaeth dawns ledled tair Sir Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn. Rydym yn cydweithio a chreu gyda phobl a chymunedau, ymarferwyr dawns amatur a phroffesiynol, coreograffwyr a chwmnïau.

Rydym yn credu bod pawb yn gallu dawnsio ac yn parhau i ddadlau'r manteision o ddawns i'n cymunedau o fewn y cyd-destun twf personol, iechyd a lles cymdeithasol, rhyngweithio cymdeithasol a chymunedol a hunaniaeth ddiwylliannol.

Ein nod yw:

- **Ysbrydoli creadigrwydd**
- **Sicrhau a chynnal ddarpariaeth berthnasol ar draws y tair sir**
- **Eirioli dawns fel cyfrwng pwerus y gellir mynd i'r afael a materion pwysig**
- **Sicrhau ymateb i'n cymunedau trwy ddarparu darpariaeth dawns Gymraeg a dwyieithog o safon uchel**

Rydym yn gweithio gyda phobl o bob oedran a gallu, yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan mewn gweithgaredd dawns. Mae elfennau o'n gweithgaredd yn cynnwys gweithio ar gynyrchiadau ar raddfa fawr gyda grwpiau mawr i sesiynau grŵp bach gydag ychydig o unigolion. Beth bynnag yw maint y grŵp, mae ein hamcan yn parhau i fod yr un fath: cynnig gweithgaredd dawns o ansawdd uchel sy'n hygyrch i bawb sydd am fod yn rhan ohono, a lle gall cyfranogwyr archwilio ymateb creadigol trwy ddawns a symud. Mae gweithgareddau yn cynnwys:

- Dosbarthiadau cymunedol rheolaidd i bob oedran a gallu
- Gweithgarddau gydag ysgolion Cynradd ac Uwchradd
- Rhaglen Dawns i Gartrefi Preswyl
- Prosiectau penodol gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol perthnasol yn cynnwys Canolfan Ddiwylliant Conwy, Dementia Actif Gwynedd a'r Conway Centre
- Cynhyrchiad Dawns Gymunedol blynyddol

- Rhaglen helaeth 'Dawns i Iechyd' gan gynnwys y celfyddydau ar bresgripsiwn, dawns i bobl sy'n byw gyda Dementia a Parkinsons, iechyd meddwl a lles a 'Phecyn Gofal Dawns' i ysgolion
- Cwmnïau perfformiad ar gyfer oedolion ag anableddau ac ar gyfer pobl sy'n byw gyda Dementia a'u gofalwyr

Mae ein cymunedau yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig ac mae ganddynt hunaniaeth ddiwylliannol gref gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Gymraeg o fewn ardal ddaearyddol. Mae'n hanfodol i ni fel sefydliad yr ydym yn ymateb i hyn ac felly'n sicrhau bod ein gweithgaredd yn berthnasol i'n cymunedau, bod ein gweithgaredd ar gael trwy'r cyfrwng Gymraeg neu'n ddwyieithog ac y mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth y gall ein cyfranogwyr weithio yn greadigol yn yr iaith o'u dewis. Mae Dawns i Bawb yn gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae ganddo bolisi Cymraeg cref mewn pob elfen o'n gwaith.

Manylion y Swydd:

Mae Dawns i Bawb yn bwriadu penodi Ymarferydd Dawns frwdfrydig a medrus i gefnogi ni i ddatblygu ein rhaglen dawns gymunedol gyffrous. Bydd yr Ymarferydd Datblygu Dawns yn gweithio'n agos ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Artistig, Rheolwr Gweinyddol, Cydlynydd Dawns a thîm bach o Ymarferwyr Datblygu Dawns eraill i gyflwyno gweithgaredd dawns i bobl o bob oed a gallu ar draws Gogledd Orllewin Cymru.

Cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Sesiynau arweiniol ar Raglen Dawns Gymunedol Dawns i Bawb gan gynnwys sesiynau wythnosol i blant ac oedolion, gwaith mewn ysgolion, Rhaglen Dawns Cartrefi Gofal a'r Rhaglen Dawns i Iechyd ynghyd â phrosiectau a gomisiynwyd mewn amrywiaeth o leoliadau
- Creu coreograffi gyda phobl o bob oedran a gallu
- Cefnogi datblygiad prosiectau a gweledigaeth y Cyfarwyddwr Artistig
- Cydlynu eich cynlluniau eich hun ar gyfer cyflawni
- Goruchwylio cyfathrebu â chleientiaid/cyfranogwyr/rhieni/gofalwyr
- Gweithio gyda'r tim i hyrwyddo sesiynau a phrosiectau
- Eiriolwr dros Dawns i Bawb mewn digwyddiadau allanol
- Cydweithio â holl aelodau'r tîm i gyflawni nodau sefydliadol
- Coladu data presenoldeb a chofnodion gwerthuso ar gyfer adroddiadau'r Bwrdd ac adroddiadau ariannu

8 TUESDAY, JUNE 14, 2016 DAILY POST

Dance hit at home

EXPERT SESSIONS AT DEMENTIA CARE CENTRE DELIGHT RESIDENTS

Sgiliau Angenrheidiol:

Gradd mewn dawns **neu** o leiaf 2 flynedd o brofiad yn gweithio fel ymarferydd dawns yn y gymuned (rydym yn awyddus i glywed gan raddedigion dawns Cymraeg newydd ac felly rydym yn barod i gynnig hyfforddiant arweinyddiaeth fel rhan o'r cyfnod prawf)

Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg (rydym yn croesawu ceisiadau gan ddysgwyr Cymraeg)

Y gallu i gydweithio fel rhan o dim bach

Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cryf

Y gallu i addasu i ofynion a heriau sy'n newid

Y gallu i weithio'n effeithlon a thuag at derfynau amser

Y gallu i gymryd menter yn y gweithle

Yn gymwys mewn TG a defnyddio cyfryngau cymdeithasol

Trwydded yrru a defnyddio car eich hun (byddem yn barod i ystyried pobl nad ydynt yn yrwyr ond byddai angen i ymgeiswyr allu profi i ni na fyddai teithio ar draws y tair sir i wahanol sesiynau yn broblem)

Mae angen gweithio gyda'r nos ac ar Sadyrnau ar gyfer y swydd hon

I geisio:

Anfonwch y canlynol fel rhan o'ch cais:

- **Llythyr eglurhaol sy'n amlinellu'ch cymwysterau a/neu'ch profiad blaenorol a beth rydych chi'n teimlo y gallwch chi gynnig i'r swydd hon**
- **CV wedi'i diweddaru**
- **Manylion cyswllt ar gyfer dau Ganolwr**

Os byddwch ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, bydd gofyn i chi arwain gweithdy 30 munud gyda grŵp bach o gyfranogwyr.

Afonwch eich cais i:

Catherine Young

Cyfarwyddwr Artistig

Dawns i Bawb

Uned 2

Galeri

Doc Fictoria

Caernarfon

LL55 1SQ

Neu ebostiwch: catherine@dawnsibawb.org

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch a Catherine Young – 01286 685220 / catherine@dawnsibawb.org

www.dawnsibawb.org

Facebook – Dawns i Bawb

Twitter - @dawnsibawb

Instagram – DawnsiBawb